


CERAMIC SERIES

WILLIE CARTER


by Josie Walter



Willie Carter left school at 16, and went into the catering trade. After formative years spent learning the craft, at hotels where he lived in northernmost Scotland, his employer suggested a move to the Dorchester Hotel in London. The next four years were spent working in a team of 150 chefs, organized into three shifts. Over this period, Willie began to be aware that things were not quite right. He wasn't finding it particularly fulfilling to cook for people who didn't appreciate the food. He felt that the Dorchester customers were paying more for a service, for an exclusivity, rather than for the delicious meals which were placed in front of them.

Then an article in 'Time Out' magazine about pottery, and an advert for evening classes, filled him with conviction that this is what he should be doing. Pottery evening classes 'were an impossible contender with the shift system at the Dorchester, so it had to go, the Dorchester that is'. Willie was glad to leave behind the noisy cacophony of the kitchen, the race against the clock necessary to co-ordinate a meal, and the restraints of employment, like clocking in. In hindsight, he realises his major dissatisfaction was that food disappears as quickly as it is made. However when the kiln door, unlike the oven door, opens, what's cooked will be around for a while.

Willie's conviction about the new direction of career was consolidated when he got a place on the 3 year Studio Ceramic Course at Chesterfield College of Art. He just knew that College was the place to be, evening classes wouldn't be sufficient to get his work to a satisfying standard. He also wanted to experience the College atmosphere and the freedom to structure his own day. Willie still feels grateful for those days at College. He found he had to be self motivated, to really work hard at obtaining the information he



wanted from the Course, its teachers, and in particular from the other students.

At the end of the Course, he started his first workshop in Farndon with the help of a Crafts Council setting up grant. He built a 60 cu. ft. downdraught oil kiln, with a packing space of 45 cu. ft., based on a design from College. In true Chesterfield tradition, he managed to salvage 5 tons of HTI's from a steel works. Frustratingly, the first 1000 he cleaned, scraped and stacked got relocated by another scavenger, before he had them moved. But the kiln got finished, and after a few teething problems, was soon ready for production.

That first year was hard, with few sales. Willie had set up his workshop at that point in our ceramic history, where shop keepers would cast an anxious glance at cardboard boxes carried into their premises by sweating potters, and comment curtly, 'Don't bother to unpack that if it's full of brown pots!'

Janice Tchalenko had begun to show what could be done with colour, and, even in the depths of Derbyshire, Willie, rebelling against the interest in wood fired pots at Chesterfield, had let colour begin to touch his work. The casserole I bought from his final year show is glazed in rich tenmoku with shino cutting across the lid in a startling blaze. A small flower design tentatively adds the colour. There was also evidence at this time of his interest in handles and feet. Function was almost superceded by their decorative value. Willie hates a mean looking handle, he likes them to have weight, to have presence, to look 'stuck on', rather than the joins smoothed away.

Willie likes to work on a month's cycle, enjoying the routine, and the breakdown of tasks. Throwing, building handles, spouts, and then the biscuit firing. The decoration is done after glazing. The glaze is really a slip, being a mixture of 33 Clay, 33 Feldspar and 33 Nepheline Syenite. The quality of the glaze tends to vary with the Ball clay he uses. For example, TWVD Ball clay contains little iron, but using CY ball clay with a higher iron content, the colours become brighter, but it needs reduction to give a warm blush to the pots. The thickness of the glaze is also crucial. If it is applied really thickly, the overall effect is whiter, but that's not really what Willie is after. It's when the glaze is applied so that the colour moves from the thicker whiter colour to the blush, caused by a thinner application, that he feels satisfied.

The decoration is applied with cut liners to give the outline and define the shapes before the inside colour is worked in. At present Willie chooses to decorate his pots with



fish, chickens and geese, subjects which move together in a group. He tries to execute the decoration as quickly as possible, to create a feeling of movement. The individual elements are less important than how each contributes towards the whole design. It's not a picture, as such, that he's after. Willie is interested in oriental brushwork and ideas come from the masses of pictures, magazine cuttings and other source material that he collects. He is not conscious of exactly where the ideas come from and never works directly from the source material. He's an inveterate doodler, the wall around his phone is smothered with the results of his inattentiveness to phone calls. Consequently, the surface of his pots also have this busy quality, as he has a compulsive need to decorate every part of the surface. He just can't leave any spaces clear.

For the future, Willie would like to be able to spend more time on individual pieces. He has just begun to experiment with squashing and bending thrown bowls. The handles are textured with wood — I have heard it said that you can always tell a Chesterfield student by their 'interesting' collection of pieces of wood! The bent dish is then placed on these handles which act as 'feet'. Willie wants to work on his brushstrokes, and then there's that problem of how to make a chicken look happy...



GYFRES CERAMEG

WILLIE CARTER

gan Josie Walter



Keith Morris

Gadawodd Willie Carter yr ysgol pan oedd yn 16 oed, a dechrau gweithio yn y diwydiant arlwyfo. Ar ôl treulio blynnyddoedd ffurfiannol yn dysgu ei grefft mewn gwestai yng ngogledd eithaf yr Alban lle roedd yn byw, awgrymodd ei gyflogwr y dylai symud i Westy'r Dorchester yn Llundain. Treuliodd y pedair blynedd ddilynol yn gweithio mewn tîm o 150 o gogyddion wedi eu trefnu'n dair sifft. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuodd Willie ddod yn ymwybodol nad oedd popeth fel y dylai fod. Ni châi ei fodloni'n arbennig wrth goginio ar gyfer pobl nad oedd yn gwerthfawrogi'r bwyd. Teimlai bod cwsmeriaid y Dorchester yn talu mwy am wasanaeth, am arwahanrwydd, yn hytrach nag am y prydau bwyd blasus oedd yn cael eu darparu iddynt.

Yna, fe'i hargyhoeddwyd gan erthygl ar grochenwaith yn y cylchgrawn 'Time Out' a chan hysbyseb am ddosbarthiadau nos mewn crochenwaith mai dyna ddylai yntau fod yn ei wneud. Roedd yn amhosibl i ddosbarthiadau nos "gystadlu â'r system sifftau yn y Dorchester, felly roedd yn rhaid i rywbedd ildio, y Dorchester yn yr achos yma." Roedd Willie yn falch o droi ei gefn ar ddadwrdd aflafar y gegin, y ras yn erbyn y cloc a oedd yn angenrheidiol i gael gwahanol elfennau pryd yn barod gyda'i gilydd a rhwystreidgaethau cyflogaeth, megis cyrraedd y gwaith i'r funud. Wrth edrych yn ôl, mae'n sylweddoli mai'r hyn roedd yn fwyaf anfodlon arno oedd bod bwyd yn diflannu cyn gynted ag y mae'n cael ei baratoi. Fodd bynnag, yn wahanol i ddrws y popty, pan agorir drws yr odyn bydd yr hyn a goginiwyd o gwmpas am beth amser.

Cadarnhawyd agryhoeddiad Willie ynglŷn â chyfeiriad newydd ei yrfa pan gafodd le ar gwrs tair blynedd mewn Crochenwaith Stiwdio yng Ngholeg Celf Chesterfield. Roedd yn gwybod ym mîr ei esgyrn mai Coleg oedd y lle i fod yn ymddygo, ac na fyddai dosbarthiadau nos yn ddigon i ddod â'i waith i safon foddaol. Roedd hefyd yn awyddus i brofi awyrgylch Coleg a'r rhyddid i drefnu ei ddiwrnod ei hun. Mae Willie'n dal i deimlo'n ddiolchgar am y dyddiau hynny yn y Coleg. Gwelodd bod yn rhaid iddo ymarfer hunan-gymhelliant a gweithio'n wirioneddol galed i gael gafael ar y wybodaeth roedd arno ei hangen o'r Cwrs, yr athrawon ac yn arbennig oddi wrth y myfyrwyr eraill.



Ar derfyn y Cwrs, sefydlodd ei weithdy cyntaf yn Farndon gyda chymorth grant cychwynnol y Cyngor Crefft. Cododd odyn 60 troedfedd giwbig oedd yn cael ei thanio ag olew ac yn cynnwys 45 troedfedd giwbig o le i ddal y llestri, yn seiliedig ar gynllun o'r Coleg. Yn unol â thraddodiad nodweddiadol Chesterfield, llwyddodd i achub 5 tunnell o HTI's o waith dur. Yn rhwystredig ddigon, cafodd y mil cyntaf a lanhaodd a'u crafu a'u pentyrru eu cymryd gan ryw ysbeiliwr arall cyn iddo eu symud oddi yno. Ond llwyddodd i gwblhau'r odyn a chyn bo hir, ar ôl ychydig broblemau cychwynnol, roedd yn barod i ddecrâu cynhyrchu.

Roedd y flwyddyn gyntaf honno yn un galed a'r gwerthiant yn isel. Roedd Willie wedi sefydlu ei weithdy yn y cyfnod hwnnw yn ein hanes ceramig pan fyddai perchnogion siopau yn bwrw golwg bryderus ar y blychau cardbord y byddai crochenyddion chwyslyd yn eu cario i mewn i'w siopau, ac yn dweud yn swta, "Paid â thrafferthu i ddadbacio hwnna os ydy e'n llawn o botiau brown!"

Roedd Janice Tchlenko wedi dechrau dangos beth ellid ei wneud gyda lliw, a hyd yn oed ym mhellafoedd Swydd Derby, roedd Willie, mewn gwrthryfel yn erbyn y diddordeb yn Chesterfield mewn potiau wedi eu tanio mewn odynau llosgi coed, wedi gadael i liw ddechrau cyffwrdd ei waith. Mae'r caserol a brynais i o'i arddangosfa yn ei flwyddyn olaf wedi ei wydreddu mewn 'tenmoku' cyfoethog gyda thoriadau 'shino' yn fllachio'n annisgwyl ar draws y caead. Mae cynllun blodyn bychan petrus yn ychwanegu'r lliw. Roedd hefyd dystiolaeth ar y pryd o'i ddiddordeb mewn dolennau a thraed. Roedd defnyddioldeb bron wedi ei ddisodli gan eu gwerth addurnol. Mae'n gas gan Willie ddolen sy'n edrych yn or-gynnwl, mae'n hoffi iddynt fod yn swmpus, yn creu argraff, yn edrych fel pe baent wedi eu gosod yn eu lle yn hytrach na gyda'r uniad wedi ei guddio a'i lyfnhau.

Mae Willie'n hoffi gweithio ar yr un tasgau mewn trefn fisol, gan fwynhau trefn reolaidd a thasgau wedi eu rhannu i'w gwahanol elfennau. Llunio ar y droell, llunio dolennau a phigau ac yna'r tanio cychwynnol. Gwneir yr addurno ar ôl y gwydreddu. Slip, sef cymysgedd o draean yr un o glai, feldspar a nepheline syenite, yw'r gwydredd mewn gwirionedd. Mae ansawdd y gwydredd yn tueddu i amrywio yn ôl y math o glai a ddefnyddir. Er enghraifft, ychydig o haearn sydd mewn clai TWVD, ond wrth ddefnyddio clai CY sy'n cynnwys rhagor o haearn mae'r lliwiau'n dod yn fwy disgrair, ond rhaid wrth

rydwythiad er mwyn rhoi gwrid cynnes ar y potiau. Mae trwch y gwydredd yn hollbwysig hefyd. Os caiff ei osod yn wirioneddol drwchus, mae'r effaith gyffredinol yn wynnach, ond nid dyna'n union sydd gan Willie mewn golwg. Yr hyn sy'n ei fodloni yw gwydredd wedi ei osod yn y fath fod fel bod y lliw yn amrywio o'r lliw gwyn mwy trwchus i'r gwrid a achosir gan drwch llai.

Caiff yr addurn ei osod gyda stensiliau er mwyn creu'r amlinell a diffinio'r ffurfliau cyn i'r lliw gael ei gynnwys. Ar hyn o bryd mae Willie'n dewis addurno ei botiau gyda physgod, ieir a gwyddau, pethau sy'n cydymud mewn grŵp. Mae'n ceisio creu'r addurn mor gyflym ag sy'n bosibl, er mwyn creu ymdeimlad o symud. Mae'r elfennau unigol yn llai pwysig na'r modd y mae pob un yn cyfrannu i'r cynllun cyfan. Nid llun fel y cyfryw y mae'n ceisio ei greu. Mae Willie'n ymddiddori mewn brwsaith dwyreiniol ac mae'r syniadau yn dod o'r pentyrrau o luniau, toriadau o gylchgronau a ffynonellau eraill y mae'n eu casglu. Nid yw'n ymwybodol o ble yn union y daw'r syniadau ac ni fydd byth yn gweithio'n uniongyrchol o'r ffynonellau. Mae'n un sy'n dwdlan yn ddiddiwedd; mae'r wal ger ei ffôn yn orlawn o ganlyniadau ei ddiffyg canolbwytio ar sgyrsiau ar y ffôn. O ganlyniad mae arwyneb ei botiau hefyd yn arddangos yr ansawdd brysur yma, mae ynddo ryw awydd anniwall i addurno pob rhan o'r arwyneb. Ni all ddioddef gadael unrhyw le gwag ar ei botiau.

Yn y dyfodol, hoffai Willie allu treulio rhagor o amser ar eitemau unigol. Mae newydd ddechrau arbrofi gyda gwasgu a phlygu bowlenni wedi eu llunio ar y droell. Defnyddir pres i greu patrwm ar arwyneb y dolenni — clywais sôn y gellir adnabod un o fyfyrwyr Chesterfield oddi wrth ei gasgliad o dameidiau 'diddorol' o bren! Yna caiff y bowlen sydd wedi ei hystumio ei gosod ar y dolenni hyn sy'n gweithio fel 'traed'. Mae ar Willie eisau gweithio ar ei frwsaith, ac yna mae'r broblem honno o geisio gwneud i iâr edrych yn hapus...

Josie Walter
Mehefin 1992

